

# **"Unigolion Mwy Diogel, Perthnasoedd Mwy Iach – Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol"**

## **ADRODDIAD CRYNO**

Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar fersiwn drafft ar gyfer Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol ac ystyriaethau allweddol ar gyfer y Grŵp Strategol a'r Bwrdd Gweithredu Diogelu.

### **Y Cyd-destun**

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru weithio gyda'i gilydd mewn modd cyson a chydlynol i wella'r canlyniadau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd sy'n wynebu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig neu Drais Rhywiol.

Mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol baratoi, cyhoeddi a gweithredu ar y cyd strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Dyma strategaeth ar y cyd gyntaf Canolbarth a Gorllewin Cymru i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac mae'n amlinellu sut y bydd y rhanbarth yn cefnogi dioddefwyr a goroeswyr, yn trechu troseddwyr, yn sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr offer a'r wybodaeth i weithredu, yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r problemau ac yn helpu plant a phobl ifanc i ddeall anghydraddoldeb mewn perthnasoedd a bod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob tro.

Nod y Strategaeth yw tanategu, dylanwadu ar flaenoriaethau polisi rhanbarthol allweddol a chyfrannu'n uniongyrchol atynt, gan gynnwys y rheiny a osodir gan:

- Y pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol CYSUR
- Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol CWMPAS
- Y ddau Fwrdd Diogelu Rhanbarthol
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys
- Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl

Nod y Strategaeth yw ymgorffori Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn "fusnes i bawb" ac yn thema drawsbynciol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob maes polisi cyhoeddus fynd i'r afael â gwella'r gwasanaethau a ddarperir i'r rhai yr effeithir arnynt, ynghyd â'i siapio, a gwella'r gwasanaethau hynny.


## Ymgysylltu ac Ymgynghori

Ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd â goroeswyr, darparwyr gwasanaethau arbenigol, darparwyr gwasanaethau cyffredinol, comisiynwyr, rhanddeiliaid ac aelodau Grŵp Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Bu i'r cyfranogwyr ymgysylltu'n frwdfrydig wrth ddarparu sylwadau cadarnhaol a negyddol ar y cyd-destun presennol ac i'r dyfodol, ac roedd y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses hon yn darparu sbectwm eang o safbwyntiau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y blaenoriaethau strategol a nodir.


## Yr Egwyddorion

Mae deg o egwyddorion allweddol wedi cael eu clustnodi drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a goroeswyr. Bydd y rhain yn tanategu'r blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon a'r dull o weithredu a chyflawni.



Yn ogystal, clustnodwyd pedair o gydrannau, a ellir eu hystyried fel **galluogwyr a chynhalwyr newid a gwelliant**. Maent yn ymwneud â gwella ac integreiddio prosesau craidd er mwyn hwyluso datblygu ffyrdd cyson a chydlynol o wella

deilliannau i unigolion a'u teuluoedd sydd wedi dioddef Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig neu Drais Rhywiol.



## Blaenoriaethau Strategol

Wrth ddatblygu'r blaenoriaethau strategol, rhoddwyd ystyriaeth i ofynion y Ddeddf ac i bolisiau a deddfwriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, i ganlyniadau'r asesiadau o'r anghenion a'r blaenoriaethau allweddol a glustnodwyd eisoes yn y rhanbarth ynghyd ag ystyried profiadau goroeswyr a rhanddeiliaid.

Yn seiliedig ar y sail resymegol a nodir yn y ddogfen, mabwysiadwyd chwe nod strategol Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Genedlaethol fel y fframwaith ar gyfer y strategaeth ranbarthol hon.

**Blaenoriaeth Strategol 1:** Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

**Blaenoriaeth Strategol 2:** Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn annerbyniol

**Blaenoriaeth Strategol 3:** Cynyddu'r ffocws ar sicrhau bod troseddwyd yn atebol, a darparu cyfleoedd i newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch y dioddefwr

**Blaenoriaeth Strategol 4:** Sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth

**Blaenoriaeth Strategol 5:** Bod gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

**Blaenoriaeth Strategol 6:** Darparu mynediad cyfartal i ddioddefwyr i wasanaethau o ansawdd uchel sydd ag adnoddau priodol, sydd wedi eu harwain gan anghenion, sydd wedi eu seilio ar gryfderau ac sy'n ymatebol i rywedd ar draws Cymru.

Nodir camau gweithredu a fydd yn galluogi'r rhanbarth i wneud gwelliannau angenrheidiol ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau strategol hyn.

Nodir camau gweithredu ychwanegol mewn perthynas â Llywodraethu ac Arwain Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y rhanbarth a'r rheiny sydd eu hangen i ddarparu galluogwyr a chynhalwyr newid a gwelliant sy'n hanfodol i effeithiolrwydd y strategaeth.

Bydd y camau gweithredu i weithredu'r blaenoriaethau strategol, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, yn cael eu hymgorffori mewn Cynllun Cyflawni Strategol cyffredinol a fydd yn bodoli ochr yn ochr â'r Strategaeth. Rhagwelir y bydd blaenoriaethau blynyddol o'r Cynllun Cyflawni Strategol yn cael eu clustnodi gan y Grŵp Strategol ac yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Gweithredu Diogelu Rhanbarthol ac i bartneriaid rhanbarthol a lleol allweddol eraill er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yn cael eu cyflawni o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

### **Pwyntiau i'w trafod**

- A ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau strategol a'r camau gweithredu allweddol sydd wedi eu gosod yn y strategaeth? Os nad ydych yn cytuno, pa opsiynau eraill y byddech yn eu hawgrymu?
- A ydych chi'n cytuno â'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer mesur a monitro cynnydd?
- A oes unrhyw faterion allweddol ar goll a sut y byddech yn awgrymu mynd i'r afael â'r rhain?
- Unrhyw sylwadau eraill?